# PWYLLGOR CYFIAWNDER CYMDEITHASOL AC ADFYWIO

**Dyddiad:** Dydd Mercher 3 Rhagfyr 2003

**Amser:** 09.30am – 12.30pm

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgor 2, Llywodraeth Cynulliad Cymru

## ADOLYGU POLISI : CAMDDEFNYDDIO SYLWEDDAU A NIFER Y LLEOEDD GWAG O FEWN CANOLFANNAU TRINIAETH

### Cyflwyniad

1. Mae'r papur hwn yn trafod sgôp, cylch gwaith a rhaglen waith ar gyfer 00 adolygu polisi ym maes camddefnyddio sylweddau.

### Cefndir

2. Mae'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio wedi cyfeirio at y lle blaenllaw y mae hi'n ei roi i atal camddefnyddio sylweddau ac i sicrhau triniaeth ar gyfer camddefnyddwyr. Mae Cadeirydd ac Aelodau Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio wedi cefnogi hyn ac wedi cytuno mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Mehefin 2003 i lunio adolygiad cyfansawdd o'r polisi yn y maes hwn.

3. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf a gyhoeddwyd yn nodi bod, yng Nghymru:

1. 50% o enethod a 58% o fechgyn rhwng 15-16 mlwydd oed yn dweud eu bod yn yfed o leiaf unwaith yr wythnos yn 2000.
2. 44% o enethod a 45% o fechgyn o'r oedran hwn yn dweud eu bod wedi meddwi ar 4 achlysur neu ragor.
3. Ym 1998, roedd 41% o enethod a 42% o fechgyn yn dweud eu bod wedi defnyddio cyffur anghyfreithlon rywdro, a 22% a 23% yn dweud eu bod wedi defnyddio o leiaf un cyffur anghyfreithlon yn ystod y mis diwethaf.
4. YM 1998, 3.8% o'r holl oedolion wedi adrodd am yfed lefel niweidiol o alcohol
5. Camddefnyddio alcohol yn fwy cyffredin na chamddefnyddio unrhyw cyffuriau anghyfreithlon.

6. Dwy ran o dair o’r rhai a geisiodd wasanaethau triniaeth yn 2001-02 yn ddynion
7. Heroin ac alcohol y mwyaf cyffredin o’r sylweddau camddefnydd sydd yn arwain pobl at driniaeth.
8. Ychydig o dan chwarter y bobl fu’n ceisio triniaeth wedi gwneud hynny am y tro cyntaf cyn cyrraedd ugain oed.

**Cylch Gwaith**

4. Dyma’r cylch gwaith arfaethedig a awgrymir ar gyfer yr Adolygiad sydd i’w gynnal ac mae’n adlewyrchu’r materion a godwyd gan Aelodau’r Pwyllgor a chynrychiolwyr asiantaethau sydd wedi rhoi cyflwyniadau mewn cyfarfodydd Pwyllgor. Nid yw’r materion a godwyd ac sy’n ymwneud â materion heb eu datganoli, megis statws cyfreithiol cyffuriau wedi eu cynnwys.

Y cylch gwaith a fwriedir ar gyfer yr adolygiad yw ystyried effeithiolrwydd y polisïau a’r trefniadau cyfredol ar gyfer atal a thrin camddefnydd o sylweddau gan roi sylw arbennig i’r canlynol :

Atal

- Canfod ymarfer gorau mewn addysg camddefnyddio sylweddau yng Nghymru
- Asesu pa arweiniad a chefnogaeth sydd ei angen er mwyn sicrhau y caiff ymarfer gorau ei weithredu mewn ysgolion a mannau eraill.
- Asesu’r camau a gymerir i leihau’r peryglon a achosir gan gamdefnyddio sylweddau yng Nghymru trwy ddulliau heblaw addysg (e.e. ym meysydd cefnogaeth i deuluoedd, tai, cyflogaeth)

Triniaeth

- Asesu argaeledd cynlluniau rhannu gofal ac arolygu defnydd ar draws Cymru a’r rhwystrau o safbwynt ricriwtio meddygon teulu a fferyllwyr ar gyfer y cynlluniau hyn.
- Canfod yr anawsterau allweddol a brofir gan bobl sydd yn ceisio cael mynediad at driniaeth, yn arbennig diwenwyno ac ailgartrefu.
- Canfod ymarfer gorau o safbwynt lleihau cyfnodau aros am driniaeth.

Grwpiau yr effeithir arnynt oherwydd camddefnyddio sylweddau

- Argaeledd gwasanaethau angenrheidiol er mwyn diogelu a gwella lles plant o deuluoedd lle camddefnyddir sylweddau.
- Canfod anghenion grwpiau penodol: plant, carcharorion a ryddheir a phobl gyda phroblemau iechyd meddwl, ac argaeledd gwasanaethau ar eu cyfer.

Alcohol

- Canfod anghenion y rhai sydd â phroblemau alcohol ac argaeledd gwasanaethau ar eu cyfer.
- Asesu effaith sylw arbennig i gyffuriau anghyfreithlon - er enghraifft gan y Swyddfa Gartref - ar y ddarpariaeth gwasanaethau ar gyfer camddefnyddwyr alcohol.
- Asesu effeithiolrwydd y mentrau polisi sydd yn ymateb i broblem argaeledd alcohol ac yfed gormodol (‘binge’ drinking)

**Gweithredu**

5.Mae copi o’r amserlen a awgrymir wedi ei chynnwys fel Atodiad A

6. O ystyried cymhlethdod y mater a’r camau niferus sydd eu hangen ar gyfer mynd i’r afael â’r problemau yn ymwneud â chamddefnyddio sylweddau, yn ychwanegol at y gefnogaeth a ddarperir gan Wasanaethau Ymchwil a Phwyllgorau Aelodau, awgrymir y gallai fod yn addas penodi panel o ymgynghorwyr y gellir galw arnynt am gyngor arbenigol yn ystod yr adolygiad..

7. Yng ngoleuni sylwadau aelodau’r Pwyllgor, bydd y Clerc yn paratoi llythyr ymgynghorol drafft a dosberthir ef yn gynnar ym mis Ionawr gan nodi diwedd Mawrth fel y dyddiad olaf ar gyfer ymateb. Bydd hyn yn caniatau amser ar gyfer paratoi dadansoddiad cychwynnol a thrafod awgrymiadau ar gyfer cyflwyniadau a sesiynnau llafar, cyn y cyfarfod cyntaf o’r Pwyllgor wedi gwyliau’r Pasg. Caiff y llythyr ymgynghorol drafft ei ddosbarthu i Aelodau cyn gwyliau’r Nadolig.

**Argymhelliad**

8. Gwahoddir y Pwyllgor i drafod y canlynol ac i gytuno arnynt:

- Cylch gwaith a materion i roi sylw iddynt ar gyfer yr adolygiad
- Defnyddio ystod eang o randdeiliaid o faes camddefnyddio sylweddau i gynghori’r Pwyllgor fel bo angen.
- Y rhaglen waith (atodiad 1)

**YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR**

**TACHWEDD 2003**